Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion

Canser y Bledren

Yr Adran Wroleg

Beth yw gwaith y bledren?

Mae'r bledren yn organ wag sydd yn casglu, storio a gwaredu wrin sydd wedi ei gynhyrchu gan yr arennau. Mae'r wrin yn draenio i lawr yr wretrau (pibellau sydd yn cysylltu'r arennau i'r bledren) i'r bledren ac yn cronni yno tan ei bod yn gyfleus troethi neu fynd i'r tŷ bach.

Beth yw Canser y Bledren?

Mae'n afiechyd cyffredin a bob blwyddyn bydd tua 13,000 o bobl yn y DG yn datblygu canser y bledren. Mae'r rhan fwyaf o ganserau'r bledren yn deillio o leinin mewnol y bledren. Os na cheir diagnosis buan o ganser y bledren a'i drin, gall ymledu yn ddyfnach i feinwe a chyhyr y bledren a gall ymledu i'r ysgyfaint a'r esgyrn.

Beth sy'n achosi canser y bledren?

Y prif ffactor risg ar gyfer canser y bledren yw ysmygu. Mae smygwr 4 gwaith yn fwy tebygol o ddatblygu canser y bledren. Mae wedi ei gysylltu â rhai diwydiannau penodol, yn enwedig gweithgynhyrchu lliw a rwber. Mae dynion 3 gwaith yn fwy tebygol o gael canser y bledren na menywod. Wrth i chi fynd yn hŷn mae eich risg o gael canser y bledren yn cynyddu. Bydd canser y bledren fel rheol yn digwydd mewn pobl ganol oed a henoed ond gall ddigwydd ar unrhyw adeg.

A fydd angen unrhyw brofion neu archwiliadau pellach arnaf?

Gan ddibynnu ar y math o ganser, efallai y bydd eich meddyg am i chi gael profion eraill a allai gynnwys:-

- **Pelydr-X o'r frest**
- **Sgan CT neu Sgan MRI**
- **Sgan Esgyrn**

Yn achlysurol, efallai y bydd eich meddyg yn gofyn am gael cynnal archwiliadau eraill. Os nad ydych yn deall pam fod angen y rhain neu beth maent yn eu golygu, gofynnwch.

Beth yw'r driniaeth ar gyfer canser y bledren?

Mae sawl dull o drin canser y bledren a bydd eich cynllun triniaeth wedi ei gynllunio'n arbennig ar eich cyfer. Mae'n bosib y bydd pobl eraill sydd â chanser y bledren yn cael triniaeth wahanol i chi. Os ydych yn pryderu am eich triniaeth ar unrhyw adeg peidiwch oedi rhag holi eich meddyg neu nyrs.

Echdoriad Trawswretraidd ar Diwmor Pledren (TURBT)

Bydd llawer o ganserau'r bledren ond yn effeithio ar leinin y bledren a gellir eu tynnu gan ddefnyddio echdorwr, math arbennig o ysbienddrych sydd yn cael ei basio ar hyd yr wthera (pibell ddŵr) i'r bledren. Gall y meddyg wedyn dorri ymaith unrhyw ganser a wêl ef/hi ac fe gaiff y meinwe ei yrru i'r labordy er mwyn edrych arno o dan feicrosgop. Cewch apwyntiad claf allanol er ôl eich TURBT fel bo'r meddyg yn gallu trafod eich canlyniadau a'ch cynlluniau i'r dyfodol.

Radiotherapi

Mae'r driniaeth yma yn difa celloedd y canser (a chelloedd normal hefyd) gan ddefnyddio pelydr-X ynni uchel. Bydd ardal y driniaeth yn cynnwys y bledren ac weithiau y pelfis cyfan. Ar hyn o bryd rhoddir y driniaeth yma yn Ysbyty'r Felindre. Gofynnir i chi ddod am driniaeth 5 diwrnod yr wythnos (Llun - gwener) dros 4-6 wythnos. Triniaeth i gleifion allanol yw hwn ac mae'n cymryd tua 30 munud. Mae'n driniaeth ddi-boen.

Os yw eich meddyg yn teimlo mai dyma'r driniaeth orau i chi, caiff hyn ei drafod mewn mwy o fanylder gyda chi ac fe gewch eich atgyfeirio at feddyg sydd yn arbenigo mewn radiotherapi (Oncolegydd) a rhoddir mwy o wybodaeth i chi am y driniaeth hon pan gewch eich gweld yn yr apwyntiad hwn.

Cemotherapi

Triniaeth gan ddefnyddio cyffuriau yw hwn sydd yn amharu ar y modd y mae celloedd yn tyfu ac ymrannu. Yn amlach na pheidio rhoddir y cyffuriau hyn yn uniongyrchol i mewn i'r bledren. Mae'n bosib y cewch ddos o gemotherapi ar ôl eich TURBT a chwrs ar ôl hynny, fel claf allanol. Caiff cwrs o driniaeth ei roi fel rheol 1 diwrnod yr wythnos am 6 wythnos. Os ydych am gael y driniaeth hon, bydd eich meddyg yn ei drafod yn fanylach gyda chi a chewch ragor o wybodaeth bryd hynny.

Systectomi

Er y gellir rheoli'r rhan fwyaf o ganserau'r bledren gyda'r triniaethau uchod, mae yna ganserau sydd yn ymledu tu hwnt i leinin y bledren ac i gyhyrau wal y bledren. Mae'n well trin rhai o'r canserau hyn drwy dynnu'r bledren allan yn llwyr er mwyn helpu i leihau'r risg y bydd y canser yn ymledu.

Os bydd y driniaeth hon yn angenrheidiol, rhoddir gwybodaeth fanwl i chi yn ei chylch. Bydd nyrs a hyfforddwyd yn arbenigol (nyrs stoma) yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth ymarferol i chi ar sut i addasu i'r sefyllfa newydd hon.

Beth sy'n digwydd wedi'r driniaeth? (nid cleifion systectomi)

Gwirio Systectomïau

Er y gellir rheoli'r canser yn dda iawn gall fod yn gyffredin iddo ailymddangos ar unrhyw adeg. Felly, ar ôl eich triniaeth, mae'n angenrheidiol i chi gael archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod popeth fel y dylai fod.

Bydd systosgop hyblyg yn cael ei ddefnyddio i edrych i'ch pledren er mwyn gwneud yn siŵr bod y canser wedi clirio. Defnyddir anasthetig lleol ac fe gaiff y prawf hwn ei wneud ar sail triniaeth claf allanol. Os bydd y bledren yn aros yn rhydd o diwmor bydd y cyfnodau rhwng archwiliadau yn mynd yn hirach tan y bydd ond gofyn i chi gael archwiliad blynyddol. Bydd yr archwiliadau hyn yn para am 1, 5 neu 10 mlynedd gan ddibynnu ar y math o ganser y bledren sydd gennych, cewch eich cynghori ar hyn pan gewch eich canlyniadau. Os sylwir bod canser yn ei ôl, byddwch yn dychwelyd i ddechrau eich rhaglen wyliadwriaeth.

Cleifion Systectomi - Ar ôl eich llawdriniaeth bydd eich meddyg yn trefnu i'ch gweld chi yn yr Adran i Gleifion Allanol i fonitro eich cynnydd. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i rai dynion barhau i gael wrethrosgopeg (camera i edrych i'r bibell ddŵr).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, gweler y manylion cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:-

Wroleg Ward D 2 Dwyrain
01633 234043 / 234044 (24 awr)

Adran Cleifion Allanol Wroleg
01633 234979
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ward Dydd Wroleg
01633 656378 / 656377
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Nyrsys Clinigol Arbenigol Wro-Oncoleg
Julie Simpson
Sian Lewis
Louise Broadway
Kathleen Connor-Middleton
01633 238976 (Bydd yn dychwelyd negeseuon llais pan nad ydynt ar ddyletswyddau clinigol)
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymarferydd Nyrsio Wroleg
Laura Reynolds
Leanne Denning
01633 234758
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymholiadau llawdriniaeth/cyn-derbyn
01633 234970 / 238568
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".